

Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys gofalu am ferlod polo cyn, yn ystod ac ar ôl gemau. Dylech allu gosod harneisiau, dewis offer ar gyfer gemau, gosod esgidiau uchel a rhwymau, rhoi bwyd a dŵr a chynhesu'r merlod i lawr ar ôl iddynt chwarae.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi adnabod peryglon ac asesu risg yn y gweithle.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. dewis a gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol priodol ar gyfer y gweithgaredd
2. trin ac atal merlod polo mewn ffordd nad yw'n peryglu lles anifeiliaid, sy'n osgoi ymddygiad sydd yn peri pryder yn ymwneud â lles ac yn cynnal iechyd a diogelwch
3. dewis a gosod harneisiau ar ferlod polo, sydd yn briodol ar gyfer hyfforddi, ymarfer a chwarae
4. dewis yr offer sydd ei angen cyn, yn ystod ac ar ôl gemau
5. sicrhau bod merlod yn cael eu tocio a'u byrhau cyn gêm a bod eu cynffonau'n cael eu rhoi i fyny
6. gosod esgidiau uchel a rhwymau yn ddiogel ac yn effeithiol ar gyfer amddiffyn a gosod stydiau
7. cynhesu merlod cyn ac yn ystod gemau a chynhesu'r merlod i lawr ar ôl iddynt chwarae er mwyn cynnal eu hiechyd a'u lles
8. darparu bwyd a dwr cyn, yn ystod ac ar ôl chwarae er mwyn cynnal iechyd a lles
9. cynorthwyo'r chwaraewyr trwy gydol y gêm yn cynnwys darparu newidiadau effeithiol o ran merlod a harneisiau
10. ymateb yn gyflym ac yn effeithlon i unrhyw argyfwng allai godi
11. sicrhau bod amgylchedd glân i'r merlod polo
12. nodi unrhyw harneisiau ac offer diffygiol a chymryd y camau priodol, o fewn terfynau eich awdurdod
13. monitro a chynnal eich iechyd a'ch diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffyl, yn ystod y gweithgaredd

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. sut i ddewis, defnyddio a gofalu am offer amddiffynnol personol
2. pwysigrwydd defnyddio technegau trin ac atal er mwyn lleihau straen ar y ceffyl a pherygl i chi eich hun ac i eraill
3. effeithiau ymarfer anaerobig ar ferlod polo
4. sut i baratoi merlod ac offer polo
5. sut i gynhesu merlod polo a'u cynhesu i lawr
6. y ffyrdd cywir o fwydo a rhoi dwr i ferlod polo cyn, yn ystod ac ar ôl chwarae
7. y ffordd y mae gweithdrefnau'n amrywio yn ôl y tywydd
8. sut i ofalu am ferlod polo blinedig
9. gweithdrefnau'r gêm polo
10. gofynion hyfforddi merlod polo
11. yr offer arbenigol a ddefnyddir mewn polo
12. y peryglon i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut y caiff y rhain eu rheoli
13. sut i drin ac atal ceffylau
14. sut i adnabod harneisiau ac offer diffygiol
15. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

Gofalu am ferlod polo cyn, yn ystod ac ar ôl gemau

Datblygwyd gan Lantra

Dyddiad cymeradwyo 31 Ion 2017

Dyddiad Adolygu Dangosol 31 Ion 2021

Dilysrwydd Ar hyn o bryd

Statws Gwreiddiol

Sefydliad cychwynnol Lantra

RCU gwreiddiol LANEq334

Galwedigaethau perthnasol Goruchwylydd Ceffylau

Cyfes/Set Ceffylau

Geiriau Allweddol ceffylau; ceffyl; polo; merlod
